CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 19eg CHWEFROR 2019

YN NEUADD GOFFA BODWROG

PRESENNOL:
Cyng H G Owen, R R Roberts, J E Lewis, J Evans, E W Roberts, D T Roberts, J E Lewis, E D Owen, R M Roberts, W R Parry, Cyng Sirol Mrs N Roberts ar Clerc D Owen.

YMDDIHEURIADAU: Neb

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Cyng Sirol Mrs N Roberts.

Cyfarfod gyda Lyndsey Campbell-Williams. Medrwn Mon. Cynllunio lle Canolbarth Place Shaping. Wedi ei ohrio gan Lynsey Campbell-Williams, oherwydd fod y Cyngor ddim yn hapus a`r cyflwyniad yn Saesneg.

CAEL COFNODION 15ed IONAWR 2019 YN GYWIR. Cynnig Cyng R R Roberts, eilio Cyng J Evans.

Croesawyd William Robert Parry fel Cynghorwr newydd ar Ward Heneglwys.

Da oedd gweld fod Cyng R R Roberts wedi gwella.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.
Pwyllgor Cyhoeddus Ganolfan Bodffordd. Heb gael feithiau a penderfyniadu llawn eto.

Mewn cofnod o gyfarfod 31.1.19. ynglyn a`r Ganolfan, Bodffordd.
Nododd Mrs Annwen Morgan, Prif Weithredwr Cynorthwyol Cyngor Sir Ynys Mon. Tra oedd ar wyliau cafodd ei stopio gan aelod o`r Cyngor Cymdeithas yn ei chyhuddo o atal y cyfarfod cyhoeddus fyn yn ei flaen. Nododd Cyng E W Roberts bod yr aelod wedi codi hyn mewn sawl cyfarfod a bod yr unigolyn yn ymwybodol o`r rhesymau pam na fydd cyfarfod cyhoeddus ar hyn o bryd.
Y bwriad fydd gawl cyfarfod o`r grwp Bodffordd Cyf i drafod bwriad Cyngor Sir Ynys Mon, yna bydd cyfarfod gyda`r bobl sy`n defnyddio`r ganolfan i gael gwell syniad o`u dymuniadau a`r galw sydd o`r ganolfan-wedi hynny, cynhelir cyfarfod cyhoeddus llawn.

Codwyd y mater am aelod o`r Cyngor Cymdeithas wedi stopio Mrs Annwen Morgan.
Dywedodd Cyng J E Lewis mae ef oedd wedi cael gair a Mrs Morgan ond nid oedd wedi ei chyhuddo o atal cyfarfod cyhoeddus.

Yr oedd Cyng Einion Williams yn ategu yn gryf iawn na dylai aelod o`r Cyngor cymryd mater i law heb fod wedi ei drafod gan y Cyngor.

Cysylltiad i`w wneud a Mrs Annwen Morgan ar rhan y Cyngor Cymdeithas am beth bynnag ddywedwyd. Cynnig Cyng E Williams, eilio Cyng R M Roberts. Neb yn gwrthwynebu.

Mynwent Gymunedol Bodffordd. Un pris wedi dod i fewn. Disgwyl am fwy.

Cynllun Cynllunio Treflys, Tynlon. Dal yn y twllwch hefo`r hen gynllun. Cyng Sirol Mrs N Roberts yn edrych i fewn eto.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. 14C28H/2/ECON. Cais llawn addasu ac ehangu syd yn cynnwys gosod seilos yn:-
   Uned 8, Stad Diwydiannol Mona, Bodffordd. (Cynlluniau Diwygiedig)
   Dim gwrthwynebiad.
   Cynnig Cyng R M Roberts, eilio Cyng D T Roberts.

PENDERFYNIADAU:

2. Dim.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

3. Dysgu Gydol Oes.
   Ymgynghoriad Statudol: Gostwng oed mynediad i Ysgol Henblas. Derbyn y wybodaeth mae yn amlwg nad oes digon o blant.

4. Adran Priffyrdd a Rheolaeth Gwastraff.
   Materion Plwyfol.
   a. Mae`r Asiantaeth yr Amgylchedd yn cael galwad i weld y Tanc Carffosiaeth lle mae dwr yn rhedeg i`r lon yn Graigfryn, Glanrafon, Tynlon.

   b. Giat Fochyn ger Castell Llandrygarn, tir Cae`r Goll yn cael Sbring newydd.

   c. Arwyddbost ar tro Glanrafon, Tynlon wedi ei gwblhau.

   d. Arwyddbost lon Capel Seion, Llandrygarn wedi ei gwblhau.

GOHEBIAETH (ARALL)

5. Banc Nat West. Newidiadau. Gwybodaeth. Derbyn.

6. Dan Do Mon. Cylchlythyr i Fudiadau Gwirfoddol. Derbyn.

7. Cyfrifon Blynyddol. Archwilydd Mewnol Mr A Foulkes. Yn cynnig ei hun eto eleni.
   Derbyn Cynnig Cyng E W Roberts, eilio R R Roberts. ond mae angen manylion ychwanegol ar lythyr penodi`r archwilydd mewnol. Cysylltu a Mr Foulkes.

8. Un Llais Cymru. Aelodaeth 2019 / 20. £149.00. Ymelodi unwaith yn rhagor Cynnig Cyng E Williams, eilio Cyng J Evans.

9. Awyr Dwyll: Dani Robertson (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ag AHNE Mon, Llyn a Bryniau Clwyd. Yn Cyflwyno ei hun. Derbyn ai gadw mewn golwg.

10. Mrs Eleri Williams. Afallon, Tynlon. Bryderus am faw cwn yn Llynfaes rhwng Corn Coch a Pen y Bryn a`r Ysgol Gymuned ym Modffordd. Anfon copi o`r llythyr i Adran Warden Cwn y Cyngor Sir. Unfrydol.

11. Swyddfa Archwilio Cymru. Cynllun Ffioedd 2019 - 20. A gyhoeddwyd heddiw. Derbyn.

RHODDION.

12. Dim.

PLWYFOL.

13. Lon Bodwrog am Tynlon mewn stad gwarthus, yr ochrau glaswellt wedi diflannu oherwydd tramwy anffarth yn ei defnyddio canol y lon yn dwll. (Lorriau mawr PAR yn cario carthffos i Fferm Bodwrog.) Mae hyn yn dod dan y Cynllun Rheoli Traffig. Maint a terfyn pwysau. Mae engraifft o hyn wedi dod yn Llangaffo. Anfon gair i`r Cyngor Sir.

14. Cyng E W Roberts yn dweud bydd Pwyllgor Cyhoeddus yn ymwneud a`r Ganolfan ac Ysgol Bodffordd, Nos Wener 8ed Mawrth 2019 am 7.30. Y Clerc i wneud trefniadau i gael Cyfieithydd.